**AWDURDOD TÂN AC ACHUB GOGLEDD CYMRU**
**PWYLLGOR ARCHWILIO**

Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Archwilio Awdurdod Tân ac Achub Gogledd Cymru a gynhaliwyd drwy Zoom ar 25 Ionawr 2021. Dechreuodd y cyfarfod am 10 o'r gloch y bore.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr:

| | |
|---|---|
| W O Thomas (Cadeirydd) | Cyngor Sir y Fflint |
| A I Dunbar | Cyngor Sir y Fflint |
| G Lowe | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| G A Roberts | Cyngor Gwynedd |
| W P Shotton | Cyngor Sir y Fflint |
| D Wisinger | Cyngor Sir y Fflint |

HEFYD YN BRESENNOL:

K Finch (Trysorydd); G Owens (Dirprwy Swyddog Monitro); H MacArthur (Prif Swyddog Tân Cynorthwyol); S Morris (Prif Swyddog Cynorthwyol); G Williams (Gwasanaethau Cyfrifyddiaeth a'r Trysorys, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); K V Williams (Adran Archwilio, Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy); A Davies (Swyddog Cyswllt Aelodau).

YMDDIHEURIADAU:

| | |
|---|---|
| B Apsley | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| S Lloyd-Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| B Parry-Jones | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

1 DATGAN BUDDIANNAU

1.1 Dim.

2 COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 27 IONAWR 2020

2.1 Cafodd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 27 Ionawr 2020 eu cyflwyno er mwyn iddynt gael eu cymeradwyo.

2.2 **PENDERFYNWYD cymeradwyo cofnodion y cyfarfod diwethaf yn gofnod cywir.**

3 MATERION YN CODI

3.1 Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

4 STRATEGAETH GYFALAF 2021/22 – 2023/24

4.1 Fe wnaeth Graham Williams roi golwg gyffredinol ar y Strategaeth Gyfalaf i'r Aelodau.

4.2 Roedd y Strategaeth Gyfalaf yn cynnwys manylion blynyddoedd ariannol 2021/22 hyd at 2023/24. Roedd y strategaeth yn dwyn ynghyd y meysydd cymhleth sy'n ymwneud â buddsoddi cyfalaf, ac roedd yn cynnwys y canlynol:

- cynlluniau gwariant cyfalaf;
- gofynion cyllido cyfalaf;
- goblygiadau penderfyniadau cyfalaf i'r gyllideb refeniw;
- pa mor fforddiadwy a chynaliadwy yw'r cynlluniau cyfalaf;
- gweithgareddau rheoli'r trysorlys;
- dangosyddion darbodus;
- trefniadau llywodraethu.

4.3 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod y gyllideb refeniw a'r gyllideb gyfalaf ar gyfer 2021/22 wedi cael eu cymeradwyo gan yr Awdurdod Tân ac Achub yn ei gyfarfod ar 9 Tachwedd 2020 - sef cyllideb refeniw net o £37.07m ar gyfer 2021/22, ynghyd â £3.08m arall wedi'i gymeradwyo ar gyfer gwariant cyfalaf. Nodwyd bod y strategaethau Rheoli'r Trysorlys sydd yn yr adroddiad wedi cael eu llunio gan ddefnyddio canllawiau gan yr ymgynghorwyr proffesiynol, sef Arlingclose.

4.4 Fe wnaeth yr Aelodau gydnabod fformat diweddaraf yr adroddiad, a oedd yn rhoi gwybodaeth am agweddau technegol gymhleth y gwaith o reoli'r gwariant cyfalaf a'r prosesau cyllido.

4.5 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Gyfalaf sy'n ymgorffori'r polisi ar ddarpariaeth isafswm refeniw, y Strategaeth Rheoli'r Trysorlys a'r Dangosyddion Darbodus.**

5 STRATEGAETH ARCHWILIO MEWNOL A CHYNLLUN BLYNYDDOL 2021/22

5.1 Fe wnaeth Keith V Williams o'r Adran Archwilio Mewnol yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gyflwyno Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021/22. Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo'r ddogfen yn unol â gofynion Rheoliadau Cyfrifon ac Archwilio (Cymru) 2014.

5.2 Nodwyd mai strategaeth gyffredinol y gwaith archwilio mewnol yw darparu cynllun archwilio sy'n seiliedig ar risgiau, a hynny mewn modd

proffesiynol ac annibynnol. Roedd [MJ1]hefyd yn nodi sut bydd y Gwasanaeth Archwilio Mewnol yn cynorthwyo'r Awdurdod i gyflawni ei amcanion drwy greu dull systematig a disgybledig o werthuso a gwella effeithiolrwydd y prosesau rheoli risg, rheolaeth a llywodraethu.

5.3 Dywedodd Mr Williams y bydd y gwaith Archwilio Mewnol yn canolbwyntio ar y meysydd canlynol yn ystod 2021/22:

| | |
|---|---|
| Y Gyflogres – Taliadau a Didyniadau | Yr amcanion yw arfarnu pa mor ddigonol yw gweithdrefnau'r gyflogres o ran talu cyflogau ac o ran didyniadau gweithwyr, gyda'r nod o ganfod unrhyw wendidau mewn rheolaeth fewnol a meysydd o risg posibl yn y system. |
| Storfeydd Canolog | Adolygu gweithdrefnau Storfeydd Canolog mewn perthynas â phrynu, derbynebu, rhyddhau, stociau, addasiadau a diogeled. |
| Y Fenter Genedlaethol rhag Twyll | Mae'r Fenter Genedlaethol rhag Twyll yn ymarferiad cynhwysfawr a thrylwyr ar gyfer 'paru data', ac mae'n cael ei threfnu gan Swyddfa'r Cabinet mewn partneriaeth ag Archwilio Cymru. |

5.4 Yn ogystal â'r gwaith archwilio a gynlluniwyd, nodwyd bod sicrwydd parhaus yn cael ei ddarparu drwy gydol y flwyddyn oherwydd y gwaith ariannol y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy yn ei wneud ar gyfer yr Awdurdod. Dyrannwyd dyddiau hefyd i fynd ynglŷn â'r argymhellion a wnaed mewn archwiliadau a gynhaliwyd yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf.

5.5 **PENDERFYNWYD cymeradwyo Strategaeth Archwilio Mewnol a Chynllun Blynyddol 2021/22.**

6 LLYTHYR ARCHWILIO BLYNYDDOL 2019/20

6.1 Fe wnaeth Amanda Hughes o Archwilio Cymru gyflwyno'r adroddiad a oedd yn rhoi gwybod i'r Aelodau am y llythyr archwilio blynyddol ynglŷn â blwyddyn ariannol 2019/20.

6.2 Nodwyd bod y llythyr yn rhoi crynodeb o'r negeseuon allweddol a oedd yn deillio o gyfrifoldebau statudol Archwillydd Cyffredinol Cymru o dan Ddeddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004, a'i gyfrifoldebau i adrodd dan y Cod Ymarfer Archwilio am y flwyddyn honno.

6.3 **PENDERFYNWYD nodi cynnwys llythyr archwilio blynyddol 2019/20.**

7 STRATEGAETH CRONFEYDD ARIANNOL

7.1 Fe wnaeth y PSTC MacArthur gyflwyno'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol, a oedd wedi'i diweddaru, i'r Aelodau. Nodwyd bod y Strategaeth wedi cael ei diweddaru a'i hadolygu ers y tro diwethaf iddi gael ei chyflwyno i'r Awdurdod yn 2016, a hynny er mwyn adlewyrchu'r arferion a'r gweithdrefnau cyfredol.

7.2 Cafodd yr Aelodau eu hatgoffa fod yr Awdurdod Tân ac Achub yn cael ei ariannu drwy gyfraniadau gan y chwe awdurdod cyfansoddol yng Ngogledd Cymru, ac nad yw'n awdurdod sy'n codi praesept nac yn bilio. Felly, mae cael cronfa wrth gefn yn sicrhau, yn unrhyw flwyddyn, fod llai o angen am gyfraniadau diwygiedig gan yr awdurdodau lleol yn ystod y flwyddyn.

7.3 Fe wnaeth y PSTC MacArthur fynd â'r Aelodau drwy'r strategaeth. Esboniodd sut mae cronfeydd wrth gefn yn cael ei dal, a beth yw'r broses ar gyfer adolygu ac adrodd ynghylch cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses o osod y gyllideb, gan gynnwys datblygu'r strategaeth tymor canolig.

7.4 Dywedodd y Trysorydd mai cronfeydd wrth gefn oedd y ffordd gywir a phriodol o reoli materion ariannol yr Awdurdod, ac anogodd yr Aelodau i gefnogi'r argymhelliad a oedd yn yr adroddiad.

7.5 Dywedodd y Cyng. Wisinger fod y Gwasanaeth Tân ac Achub wedi bod dan bwysau enfawr oherwydd y tywydd gwael a gafwyd yn ddiweddar, a'i fod wedi rheoli popeth yn dda. Fodd bynnag, roedd o'r farn y byddai unrhyw ostyngiadau yn y cyllid yn effeithio ar allu'r Awdurdod i ymateb i argyfyngau o'r fath. Roedd yr Aelodau'n cefnogi sylwadau'r Cyng. Wisinger a theimlent fod angen i Aelodau o Senedd Cymru gydnabod y neges hon.

7.6 **PENDERFYNWYD argymell i'r Awdurdod Tân ac Achub ei fod yn cymeradwyo'r Strategaeth Cronfeydd Ariannol fel sail ar gyfer rheoli'r cronfeydd defnyddiadwy sydd gan yr Awdurdod Tân ac Achub.**